# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (256)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 29 Mawrth 2011**
**Amser: 13.30**

**13.30**
**Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

………………………

**14.20**
**Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

**14.42**
**Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: Adolygiad o Lywodraeth Leol: Ai dyma'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau – lleol, rhanbarthol, cenedlaethol?**

………………..

**15.19**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes: Adroddiad ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru**

………………..

**15.52**
**Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011**

**NDM4708 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.08**
**Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011**

**NDM4709 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.17**
**Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011**

**NDM4710 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

***Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda’i gilydd o dan Reol Sefydlog 7.20 ond gyda phleidlais ar wahân***

**16.22**
**Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011**

**NDM4711 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**Eitem 9: Cynnig i gymeradwyo fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

**NDM4712 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.34**
**Eitem 10: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Diwygio Lles**

**NDM4713 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth mewn perthynas â lles a gwasanaethau penodol a geir yn y Bil Diwygio Lles, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 16 Chwefror 2011, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**16.36**
**Eitem 11: Dadl cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.57 am y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)**

Yn unol  â Rheol Sefydlog 23.49, caiff gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**<u>1. Amcan y cydlafurio</u>**

1

**<u>2. Cynigion gan awdurdodau lleol i ffedereiddio ysgolion - gofynion yr ymgynghoriad ac ysgolion bach</u>**

2, 3, 6,

**<u>3. Rheoliadau mewn perthynas â ffedereiddio - hawl ysgol i adael ffederasiwn</u>**

4, 5

**<u>4. Ffedereiddio drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru</u>**

7

**<u>5. Ysgolion sefydledig</u>**

8, 9, 10, 11, 12, 18, 20, 21

**<u>6. Gorchmynion a Rheoliadau – gweithdrefn</u>**

13, 14, 22, 15, 16, 23

**<u>7. Rheoliadau – cynlluniau peilot</u>**

17

**<u>8. Apelio yn erbyn cynigion awdurdod lleol i ffedereiddio</u>**

19

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli:**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 29 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 31 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 31 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 5.**

**Gan fod gwelliant 3 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 37 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 37 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gan fod gwelliant 8 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 10.**

**Gan fod gwelliant 9 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 11.**

**Gan fod gwelliant 9 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 12.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 5 | 31 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13.**

**Gan fod gwelliant 13 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 14.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 22:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 22.**

**Gan fod gwelliant 13 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 15.**

**Gan fod gwelliant 13 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 16.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 17:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 31 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 17.**

**Gan fod gwelliant 22 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 23.**

**Gan fod gwelliant 8 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 18.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 19:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 19.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 20:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 37 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 20.**

**Gan fod gwelliant 8 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 21.**

**Barnwyd bod holl adrannau'r Mesur arfaethedig a'r atodlenni iddo wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

...........................

### 17.27
### Eitem 12: Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

*Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.*

Cynhaliwyd pleidlais ar:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 8 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

Mae'r Mesur fel y cafodd ei basio i'w weld drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/proposed_education_wales_measure_2011.htm

...........................

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.30.**

...........................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 30 Mawrth 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**